BE PART OF SOMETHING ELECTIONS

BYDDA'N RHAN O RYWBETH ETHOLIADAU

# Etholiadau Swyddogion 2025

---

# Rheolau'r Ymgeisydd

# POBL ALLWEDDOL

Jacob Webb: Dirprwy Swyddog Dychwelyd

Y Dirprwy Swyddog Dychwelyd (DSD) fydd eich prif gyswllt ynglŷn ag unrhyw gwestiynau neu gwynion. Bydd y DSD yn pasio unrhyw fater ymlaen i Swyddog Dychwelyd yr UCM i gael eu barn. Gellir cysylltu â’r DSD trwy union.elections@aber.ac.uk.

Swyddog Canlyniadau UCM
Mae'r Swyddog Canlyniadau yn goruchwylio'r broses etholiadol fel ei bod yn deg ac yn agored.

# DYDDIADAU ALLWEDDOL

Sefyll yn Agor: 10am, dydd llun 27ain Ionawr
Sefyll yn Cau: 12pm, dydd llun 24ain Chwefror
Briffio’r Ymgeiswyr: 5:30pm, dydd llun 24ain Chwefror
Pleidleisio yn Agor: 10am dydd llun 17eg Mawrth
Pleidleisio yn Cau: 12pm dydd gwener 21ain Mawrth
Canlyniadau: 6pm dydd gwener 21ain Mawrth

# SEFYLL

1. I Sefyll, mae rhaid i chi lenwi’r ffurflen sefyll ar-lein trwy umaber.co.uk/newidaber/etholiadau/ cyn 12pm, dydd llun 24 chwefror
2. Pan yn ymgeisio i sefyll, bydd rhaid i chi gynnwys eich enw, eich rhif myfyriwr, a’ch cyfeiriad e-bost prifysgol
3. Ni chaniateir i aelod sefyll am fwy nag un swydd o’r un fath (Ymddiriedolwr Myfyriwr, Swyddog Sabothol, Swyddog Gwirfoddol) yn yr un etholiad.
4. Bydd yr Undeb yn trefnu sesiwn Briffio’r Ymgeiswyr ar ddiwedd y cyfnod sefyll. Yn y sesiwn briffio, bydd y DSD yn cyflwyno rheolau’r etholiadau a rhoi diweddariadau perthnasol i’r ymgeiswyr. Bydd rhaid i unrhyw rai na all ddod i’r cyfarfod hwn wneud yn siŵr eu bod yn siarad â’r DSD cyn ymgyrchu

## YMGYRCHU

1. Yr ymgeiswyr fydd yn gyfrifol am ymddygiad ymgyrchwyr sy'n cefnogi eu hymgyrch etholiadol, cyfeirir atynt fel tîm ymgyrchu. Diffinnir ymgyrchydd fel rhywun y deellir i weithredu ar ran ymgeisydd i hyrwyddo ymgyrch etholiadol yr ymgeisydd hwnnw.
2. Mae cyfrifoldeb ar ymgeiswyr i sicrhau bod eu hymgyrchoedd yn cydymffurfio â'r rheolau ymgyrchu a bydd disgwyl iddynt brofi hyn os codir cwyn yn eu herbyn.
3. Mae'n rhaid i ymgeiswyr a'u hymgyrchwyr ond weithredu ar lefel sy'n gyfartal â'r cyfleoedd sydd ar gael i ymgyrchwyr eraill ymgyrchu.
4. Dylai ymgeiswyr a'u hymgyrchwyr ymddwyn gyda pharch tuag at eraill, a ni chaniateir iddynt fygwth, aflonyddu neu beryglu llesiant a diogelwch eraill.
5. Ni chaniateir i ymgeiswyr a'u tîm ymgyrchu ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo eu hymgyrch oni bai eu bod wedi cael caniatâd penodol oddi wrth y DSD.
6. Ni chaniateir i ymgyrchwyr a'u tîm ymgyrchu honni bod yr Undeb neu fod aelodau staff unigol yr Undeb yn eu cefnogi (neu'r ymgeisydd maent yn ei gefnogi).
7. Ni chaniateir i ymgeisydd neu ei dîm ymgyrchu fwrw pleidlais neu geisio bwrw pleidlais ar ran myfyrwyr arall.
8. Ni chaniateir i ymgeiswyr brynu pleidlais bleidleiswyr fel rhan o'u hymgyrch.
9. Mae rhaid i ymgeiswyr a'u tîm ymgyrchu gydymffurfio â'r holl ddeddfau a rheolau ehangach presennol sy'n rheoli ymddygiad unigolion neu fyfyrwyr.

## CYLLID

1. Gosodir cyllideb ymgyrchu gan y Dirprwy Swyddog Etholiadol a cheir ei chyflwyno yn sesiwn briffio yr ymgeiswyr. Bydd yr Undeb yn ad-dalu'r costau hyn wrth ddarparu derbynebau.
2. Ni chaniateir i ymgeiswyr fynd dros ben terfynau eu cyllideb.
3. Rhaid i ymgeiswyr gadw rhestr ysgrifenedig o gostau'r ymgyrch. Rhaid hefyd i ymgeiswyr fod yn barod i ddarparu'r rhain ar gais Swyddog yr Etholiadau.
4. Disgwylir i ymgeiswyr allu rhoi tystiolaeth o'u costau ymgyrchu rhag ofn y codir cwyn yn eu herbyn. Lle bo'n bosib, dylid gwneud hyn ar ffurf dderbynebau. Lle na fydd modd, dylid defnyddio amcangyfrif pris arferol eitem. Er eglurder, dylid siarad â'r Dirprwy Swyddog Etholiadol cyn defnyddio'r eitem dan sylw.

# CYFRI A CHYHOEDDI

1. Pan fydd y pleidleisiau yn cael eu cyfri, bydd y Swyddog Dychwelyd neu ei enwebydd yn goruchwylio'r broses.
2. Ni fydd canlyniadau etholiadau'r Undeb ond yn dod i rym pan mae'r Swyddog Dychwelyd yn cadarnhau bod y canlyniad yn gywir oherwydd bod y broses yn rhydd ac yn deg a bod pob cwyn wedi'i ddatrys.

# CWYNION AC APELIADAU

1. Cyfrifoldeb y Swyddog Dychwelyd yn unig fydd dehongli'r rheolau hon ac is-ddeddfau yr Undeb.
2. Pan yn ymchwilio cwyn ynghylch toriadau posib o'r is-ddeddfau, mae'n rhaid ei gyflwyno'n ysgrifenedig trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein addas ar gyfer y DSD. Mae'n rhaid i'r cwyn fod yn glir pan yn cyfeirio at y rheolau hon.
3. Bydd y DSD yn ymchwilio cwynion a chyfeirio'r materion i'r Swyddog Dychwelyd ei benderfynu.
4. Yn sgil canlyniad penderfyniadau, gall y Swyddog Dychwelyd ddewis gweithredu ar sail y canlyniad. Gall hyn gynnwys tynnu rolau penodol yn ôl o'r etholiadau, gan ei gyfeirio i gael ei ddatrys gan brosesau disgyblu neu wahardd ymgeiswyr yr Undeb neu'r Brifysgol.
5. Bydd dyfarniadau'r Swyddog Dychwelyd yn cael eu rhoi ar waith yn syth.
6. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gwyn cyn cyfri'r pleidleisiau neu o fewn un awr ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben.
7. Mae'n rhaid cyflwyno ynghylch cyfri'r pleidleisiau yn ysgrifenedig trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein addas a'i hanfon at y Swyddog Dychwelyd neu'r DSD cyn cyhoeddi'r canlyniadau.
8. Mae'n rhaid i unrhyw apêl gael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i'r Swyddog Dychwelyd neu'r DSD cyn 12pm y diwrnod ar ôl i'r ymgeisydd gael gwybod o benderfyniad a wneir gan y Swyddog Dychwelyd. Ni chaiff ymgeiswyr gyflwyno apeliadau yn erbyn cosbau oni bai eu bod yn ganlyniad i gŵyn.
9. Mae'n rhaid i apêl roi seiliau clir gan gyfeirio at ddehongliad afresymol o reolau'r etholiadau, na ddilynwyd y broses gywir, bod y Swyddog Dychwelyd wedi dangos rhagfarn, tueddiad neu wedi methu ag ystyried yr holl wybodaeth ar gael. Ceir darllen yr holl fanylion rheolau a rheoliadau sy'n llywio'r etholiadau ar wefan UMAber.

Ar wefan Undeb Aberystwyth, mae Is-ddeddfau'r Etholiadau lle ceir yr holl reolau a rheoliadau mewn manylder a lywodraethir yr etholiadau.